OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 1025

# Gorchymyn Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012 (Cychwyn Rhif 2, Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) 2015

**Darpariaethau trosiannol ac arbedion**

**3.**—(1) Er i adrannau 2, 4, 6, 7, 8 ac 20 o Ddeddf 2012, ac Atodlenni 1 a 2 iddi, ddod i rym—

(a) nid yw adrannau 2, 4, 6 a 7(3) i (9) ac 8(3) o'r Ddeddf honno, ac Atodlen 2 iddi, yn gymwys i is-ddeddfau a ddisgrifir ym mharagraff (2); a

(b) mae adran 236(3), (4) i (7) ac (11)(**1**) o Ddeddf 1972 yn gymwys i is-ddeddfau a ddisgrifir yn y paragraff hwnnw.

(2) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i is-ddeddfau y mae adrannau 235, 236 a 236B o Ddeddf 1972 yn gymwys iddynt, os cyn y diwrnod penodedig—

(a) bod un neu ragor o'r camau a ganlyn wedi eu cymryd mewn perthynas â hwy—

(i) bod yr awdurdod deddfu sy'n gwneud yr is-ddeddfau wedi rhoi hysbysiad, yn unol ag adran 236(4) o Ddeddf 1972, o'i fwriad i wneud cais am gadarnhad o'r is-ddeddfau yn un neu ragor o'r papurau newydd lleol sy'n cylchredeg yn yr ardal y mae'r is-ddeddfau i fod yn gymwys iddi; neu

(ii) bod copi o'r is-ddeddfau wedi ei adneuo, yn unol ag adran 236(5) o Ddeddf 1972, yn swyddfa'r awdurdod deddfu sy'n gwneud yr is-ddeddfau; a

(b) bod yr awdurdod cadarnhau(**2**) heb gadarnhau'r is-ddeddf; neu

(c) bod yr awdurdod cadarnhau wedi cadarnhau'r is-ddeddf ond nad yw'r is-ddeddf eto wedi dod yn weithredol.

(**1**) Diwygiwyd is-adran (1) o adran 236 o Ddeddf 1972 gan adran 84 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1985 (p. 51), a pharagraff 31(1) o Atodlen 14 iddi.Diwygiwyd is-adran (3) o adran 236 o Ddeddf 1972 gan O.S. 2001/3719. Diwygiwyd is-adran (9) o'r adran honno, a mewnosodwyd is-adran (10A) o'r adran honno, gan baragraff 50 o Atodlen 15 i Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p. 19). Ceir diwygiadau eraill i adran 236 o Ddeddf 1972 nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

(**2**) Gweler adran 236(11) o Ddeddf 1972 ar gyfer ystyr "confirming authority". Mae swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol yn yr adran hon yn cael ei harfer yn gydredol â Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cendlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), ac Atodlen 1 iddi. Trosglwyddwyd y swyddogaeth hon bellach i Weinidogion Cymru yn rhinwedd gweithrediad adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.